# Y Polisi ynghylch defnyddio Dyfeisiau Symudol

Cynnwys

1. Y Pwrpas
2. Cwmpas
3. Gofynion a Chyfrifoldebau
4. Mesur Cydymffurfiaeth
5. Noddwr
6. Gwarchodwr
7. Sicrhau Triniaeth Gyfartal

## 1. Y Pwrpas

1.1 Mae'r Polisi hwn yn diffinio gweithdrefnau, cyfrifoldebau ac ymarferion derbyniol o ran defnyddio dyfeisiau symudol y mae'r Cyngor yn eu caniatáu i gysylltu â'i rwydwaith.

1.2 Caiff dyfais symudol ei diffinio fel unrhyw ddyfais electronig sydd â'r gallu i drosglwyddo, derbyn, recordio, prosesu neu storio data. Mae'r swyddogaeth hon yn cynyddu mewn nifer o ddyfeisiau a gallent fod ag un swyddogaeth neu gyfuniad o'r swyddogaethau canlynol:

- Cyfrifiaduron côl.
- Llechi e.e. iPads Apple, Lenovo Helix, padiau Samsung Galaxy ac ati.
- Ffôn Clyfar / Ffôn Symudol neu Gynorthwyydd Digidol Personol (PDA).
- Dyfais recordio ddigidol e.e. camera digidol, recordiad sain, chwaraewr mp3.
- Unrhyw ddyfais symudol arall, megis system llywio lloeren neu ddyfais hybrid sy'n cyfuno swyddogaethau.

1.3 Ni chaniateir defnyddio dyfeisiau personol i gael mynediad i rwydwaith y Cyngor heb gael caniatâd gan y Swyddog Diogeledd TG ymlaen llaw oherwydd mae'n gallu achosi nifer o risgiau megis:

- Colli, datgelu neu lygru data'r Cyngor ar ddyfais bersonol.

- Digwyddiadau sy'n ymwneud â bygwth neu beryglu seilwaith TG y Cyngor (e.e. hacio, haint maleiswedd).

- Methu â chydymffurfio â rheoliadau a deddfau perthnasol megis Deddf Diogelu Data (1998), Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a Deddf Hawliau Dynol (1998).

- Methu â chydymffurfio â Chôd Cysylltu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Atebolrwydd am golli data, neu ddifrod i ddyfais bersonol yn sgil camgymeriadau gweinyddol neu gamgymeriadau'n ymwneud â meddalwedd.

1.4 Bydd yr Awdurdod yn darparu dyfeisiau priodol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio symudol, yn seiliedig ar dderbyn yr awdurdodiad perthnasol ar gyfer y ddyfais.

1.5 Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â Pholisi Diogeledd Gwybodaeth y Cyngor, Polisi Defnyddio'r E-bost a Monitro Hynny, Polisi Defnyddio'r Rhyngrwyd a Monitro Hynny a'r Polisi Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau.

## 2. Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr, aelodau etholedig ac unrhyw bartneriaid neu drydydd parti sy'n cael mynediad i ddata'r Cyngor o ddyfais symudol a ddarparwyd gan yr Awdurdod.

## 3. Gofynion a Chyfrifoldebau

3.1 Bydd y penderfyniad i ddarparu dyfais ar gyfer gweithio symudol yn seiliedig ar gofnodi angen busnes ac mae'n rhaid i'r cais gael ei gymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr.

3.2 Bydd y Gwasanaethau TG yn darparu cyngor ac arweiniad, yn seiliedig ar yr angen busnes a nodwyd, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau'n cydweddu â'n systemau TG.

3.3 Mae'n rhaid i'r holl ddyfeisiau gael eu caffael a'u cyflunio gan y Gwasanaethau TG cyn cael eu dyrannu i staff i'w defnyddio ar rwydwaith y Cyngor.

3.4 Ni fydd cyfrifon a rennir ar gael ar rai dyfeisiau (e.e. Ffonau Clyfar) yn sgil cyfyngiadau o ran meddalwedd y ddyfais. Gall dyfeisiau o'r fath ond gael eu cyflunio ar gyfer defnydd un person ac ni ellir eu rhannu ymysg staff. e.e. Ni ellir creu gwahanol flychau post ar iPad.

3.5 Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r defnyddiwr fod yn ofalus dros ben o ran sicrhau diogelwch unrhyw ddyfais symudol sy'n cael ei dyrannu iddo ef/iddi hi ac sy'n cynnwys data'r Cyngor ac yn cysylltu â rhwydwaith y Cyngor.

3.6 Cymwysiadau sy'n cael eu cymeradwyo at ddefnydd busnes yn unig fydd yn cael eu gosod ar ddyfeisiau gweithio symudol y Cyngor. Ni chaniateir i ddefnyddwyr osod apiau symudol ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, apiau a gemau sydd am ddim o storfa Google Play ac Apple iTunes. Ar adegau, gofynnir i ddefnyddwyr osod diweddariadau ar ddyfeisiau Apple, a hynny yn dilyn cyfarwyddyd gan y Gwasanaethau TG.

3.7 Bydd dyfeisiau symudol y Cyngor yn cael eu cyflunio er mwyn defnyddio cyfrif sydd i'w reoli gan y Gwasanaethau TG. Rhaid i'r cyfrif hwn beidio â chael ei waredu na'i newid mewn unrhyw ffordd oherwydd gallai atal y ddyfais rhag gweithio'n iawn. e.e. Cyfrif Apple ID.

3.8 Rhaid i ddefnyddwyr dderbyn y bydd y Cyngor yn gorfodi polisïau diogelwch ar ddyfeisiau symudol, sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau diogeledd ac uniondeb o ran y data ar y ddyfais. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, feysydd megis cyfrin-gôd, terfyn amser cyfrin-gôd, cymhlethdod cyfrin-gôd, oed y cyfrin-gôd, gosodiadau amgryptio dyfeisiau, dileu'r holl wybodaeth a chloi'r ddyfais.

3.9 Rhaid i ddefnyddwyr roi gwybod ar unwaith i'r Ddesg Gymorth TG am ddyfeisiau symudol sydd wedi'u dwyn neu sydd ar goll yn ystod oriau swyddfa neu i Wasanaeth ar alw TG (drwy'r Llinell Gofal) y tu allan i'r oriau arferol; mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw ddata'r Cyngor ar y ddyfais yn cael ei ddileu o hirbell.

3.10 Rhaid i ddefnyddwyr gymryd rhagofalon priodol er mwyn atal eraill rhag cael mynediad i'w dyfeisiau symudol. Bydd defnyddwyr yn gyfrifol am yr holl weithgareddau a wneir gan ddefnyddio eu manylion nhw ac ni ddylent rannu cyfrin-godau sy'n benodol ar eu cyfer nhw nac unrhyw wybodaeth sydd wedi'i storio ar eu dyfeisiau.

3.11 Wrth ddefnyddio data'r Cyngor ar ddyfais symudol mewn man cyhoeddus, rhaid sicrhau na all unrhyw un arall weld unrhyw wybodaeth sydd ar y sgrin. e.e. nodi eich rhif PIN ar y ddyfais

3.12 Rhaid ichi beidio â defnyddio dyfeisiau personol neu ddyfeisiau heb eu rheoli i gadw data'r Cyngor. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddefnyddio dyfeisiau personol gydag unrhyw un o atebion gweithio o bell y Cyngor.

3.13 Rhaid peidio byth â defnyddio data sydd wedi'i ddosbarthu neu sydd â marc diogelu Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN) neu Government Connect Secure eXtranet (GCSX) ar ddyfais symudol.

3.14 Ni chaniateir i ddefnyddwyr ddefnyddio dyfeisiau symudol dramor heb ganiatâd ymlaen llaw gan Bennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr neu Brif Weithredwr. Dylent gymryd i ystyriaeth y rheswm dros gynnal y daith (busnes neu bleser), unrhyw gostau ychwanegol o ran data crwydrol a fydd yn codi yn sgil defnyddio'r ddyfais dramor a lleoliad y trip. Ni ddylid caniatáu defnyddio'r ddyfais y tu allan i Ardal Economaidd Ewropeaidd (https://www.gov.uk/eu-eea) heb gael caniatâd gan y Swyddog Diogelu Data a'r Swyddog Diogeledd TG.

3.15 Rhaid i bob defnyddiwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol wrth ddefnyddio dyfais symudol e.e. Ni ddylid cael mynediad i deledu byw ar unrhyw ddyfais y mae'r Awdurdod yn berchen arni oni bai eich bod wedi cael gwybod yn bendant fod gan y safle drwydded deledu.

3.16 Cyfrifoldeb y rheolwyr llinell yw sicrhau bod dyfeisiau'n cael eu dychwelyd iddyn nhw cyn i staff derfynu eu cyflogaeth. Dylai Aelodau ddychwelyd dyfeisiau i'r Uned Gwasanaethau Democrataidd. Dylai rheolwyr llinell roi gwybod i'r Ddesg Gymorth TG os yw dyfeisiau i fod i gael eu hailddyrannu neu os oes angen terfynu cysylltiadau SIM.

## 4. Mesur Cydymffurfiaeth

4.1 Mae cydymffurfio â'r Polisi hwn yn orfodol ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n defnyddio dyfais symudol i gysylltu â systemau'r Cyngor. Os na fydd staff yn cydymffurfio ag ef gellir cymryd camau disgyblu yn eu herbyn. Gellir hysbysu'r Pwyllgor Safonau am aelodau etholedig nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

## 5. Noddwr

5.1 Eiddo'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol yw'r polisi hwn.

## 6. Gwarchodwr

6.1 Cyfrifoldeb y Swyddog Diogeledd TG yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu gan yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol.

## 7. Sicrhau triniaeth gyfartal

7.1 Rhaid cymhwyso'r polisi hwn yn gyson at bawb, heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil na chyfrifoldebau magu plant.

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogeledd TG ar 01267 246311 neu anfonwch e-bost at: ITSecurity@sirgar.gov.uk

Polisi wedi'i gymeradwyo gan:
Dyddiad Adolygu Polisi: Medi 2024
Ysgrifennwyd y polisi gan: John M Williams – CISMP